# ROLE ADVERT

**ROLE TITLE:** **Lead Commissioner Learning Disability**

TEMPORARY initially 6 months

**POST ID:** **SAS407**

**GRADE:** SCP 45 (£39,660) – 49 (£43,387)

**HOURS:** **37 Hrs** Per Week

**LOCATION:** Usk or Magor which may change in the future if the service location needs to relocate. Relocation or disturbance expenses will not be paid if this happens.

**WELSH LANGUAGE ASSESSMENT:**
Welsh language skills are desirable.

**PURPOSE OF POST:**

**We need a dynamic commissioning lead to help create the right opportunities for the people we support.**
**We need to maximise the opportuinities for people to lead good lives and have the support that enables them to live their own lives. This post will be key in developing those options .**
**This role will comprehensively scope and develop the market along the principles of the 'Turning the world upside down' work which is being rolled into the at home support market. This role will work with the whole service to challenge support the move to a place where we can be more confident that we are addressing 'what matters' across the board.**

**Should you require any further information regarding this post, please contact: Ceri York Service Manager for Commissioning and Disability Services Tel: 07775 648623**

**Closing Date: 12 noon on 21st October 2016**

**Please Note that we are not able to accept CV's**

**Application forms can be completed online or down loaded via:**
**www.monmouthshire.gov.uk/how-to-apply-for-council-jobs**

Applications may be submitted in Welsh, and that an application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English.

Completed paper application forms should be returned to the following address:-
People Services, Monmouthshire County Council, PO BOX 106, CALDICOT, NP26 9AN

Appointment to this post is exempt from Rehabilitation of Offenders Act and is subject to an Enhanced Disclosure Check.

Monmouthshire County Council is an equal opportunities employer and welcomes applications from all sections of the community.

All posts are open to job-share unless stated otherwise.

Monmouthshire County Council operates a Smoke Free Workplace policy.

# ROLE PROFILE

**ROLE TITLE:** **Lead Commissioner Learning Disability**
TEMPORARY initially for 6 months

**POST ID:** **SAS407**

**GRADE:** SCP 45 (£39,660) – 49 (£43,387)

**HOURS:** **37 Hrs** Per Week

**LOCATION:** Usk or Magor which may change in the future if the service location needs to relocate. Relocation or disturbance expenses will not be paid if this happens.

**RESPONSIBLE TO: Ceri York Service Manager Commissioning and Disability Services.**

**WELSH LANGUAGE ASSESSMENT:**
Welsh language skills are desirable.

**Who are we?**
We are a highly committed group of staff across Children's and Adult services that are concerned with making a difference and supporting people, children and families to live their own lives. We are concerned with creating the right conditions for excellence in practice and delivery to support our stated aim.
Moving from a deficit based approach to a fully strengths based approach has been and still is certainly a contemporary challenge, we are making good progress towards this.
We previously delivered social care through a largely needs led approach which often remained service led. The direction of travel for commissioning support for people with Learning Disabilities see's us developing a range of support that assist people live their own lives and develop and sustainable approach to the supply of support and services.
The distance travelled to date is good but we now need to move this to excellent across the board.
With the implementation of the Social services and Wellbeing Act in April 2016 we believe we are well placed to address the high aspirations of the new legislative requirements.

**Our Purpose:-**
Creating the right support and where needed services using a co- produced strengths based approach is a key foundation stone upon which we need this role to practice.
We are concentrating on a place based approach enabling people to remain connected to their communities and networks and have access to a range of support

and services really help people live their own lives and their specified personal outcomes.

This role will comprehensively scope and develop the market along the principles of the ‘Turning the world upside down’ work which is being rolled into the at home support market.
Developing relationships with the sector and individuals who require support from us will be key to success.
This role will work with the whole service to challenge support and move practice to a place where we can be more confident that we are addressing ‘what matters’ across the board.

**Our purpose is to:**
‘Help people live their own lives.’

The key operating principles that help guide how we develop and operate our delivery are:

We will work in **partnership** to facilitate solutions, building meaningful rapport/relationships with family’s individuals and partners.
• We will know/be clear about the people who we will support in a **timely** manner.
• We will have a plan of how we will support people to develop a ‘whole life’ plan, and have a method to track progress and **communicate** effectively. (Including commissioning)
• We will take an **outcome focused** approach to future planning (long term and short term) with families and individuals to meet their own aspirations and goals.
• We will involve the **right people** at the right time to help people in crisis and will take responsibility for the appropriate pace and continuity of our on-going intervention.
• We will have **honest and transparent** conversations with all people.
• We will work with and **respect** other colleagues and challenge systems to ensure best practice and service delivery.
• We will use knowledge to reflect **learn** and develop on our practice and decisions.
• Everything we record will be **purposeful** and proportionate.

**The Purpose of this Role:-**

Essentially this role will be concerned with creating more options for people with Learning disabilities to live good lives.
As set out in the Commissioning strategy I need a lead commissioner who is concerned with;
Helping people to live their own lives
Strengthening communities
People feeling safe
Doing things differently
Promotion, prevention and early intervention
Transformation in practice has led to different outcomes for individuals and we now need a diffrenent ‘offer’ for people, this key post will support this development .

**Expectation and Outcomes of this Role:-**

I am looking for a lead commissioner who has a proven track record in delivering change. I need you to be a creative thinker and an effective communicator, it is important that your values are driven by ensuring people are able to live their own lives.
You will have a passion for practice development and will see this as the main focus and key ingredient of delivering 'what matters'. I need you to be an enthusiastic and driven individual who can continue to take forward the transformation of commissioning for people with a learning disability. I believe the approach we have developed is on its way to making a big difference to people, but there is further to travel.
Creating a universal language around excellent practice that really supports the setting of personal outcomes and being able to measure success is key to managing the model of delivery I need.
I will also need you to be a good networker and collaborator. You will be able to influence the direction of travel and be able to inspire people with your vision of practice for the future.
As set out in the Commissioning strategy ( attached ) I need a lead commissioner who is concerned with;

- Helping people to live their own lives
- Strengthening communities
- People feeling safe
- Doing things differently
- Promotion, prevention and early intervention

I need a Commissioning lead who can deliver further transformation across the Learning Disability service area building on the work to date and taking this to a conclusion.

This role has direct relevance to the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014. Fundamentally commissioning is about promoting better choice for people who need support. Enabling this to happen in more cohesive communities and looking at ways in which we can help adults with learning disabilities to achieve more independence, as required by the Act.
The role also relates to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 as it emphasizes supporting people on a basis which reflects the need for long-term sustainability.

You will create the context within which we can grow support / service reviews that are founded on what matters and concerned with ensuring better outcomes. These will be measured and you will be responsible for specific contract tendering/ awarding processes.

**Your responsibilities are to:-**

- Develop a wide variety of support and services that enable a sustainable and flexible market that has the person at the centre of what is delivered, and that we have evidence of people with Learning Disability co-producing what is available.
- Ensure you have listened to all stakeholders' ,helping to remove the obstacles which get in the way of developing person centred support and services.

- Develop and implement agreed service specifications, ensuring they are consistent and fit for purpose and in place, underpinning the Commissioning activities and are outcome based
- Be responsible for the monitoring of agreed services to ensure they are delivered within an appropriate legal framework and have a fair, equitable and transparent basis and clearly delivers outcomes
- Be paying attention to understanding what matters to people who use services are their carers
- Analyse data to inform collaborative / partnership planning and service developments.
- Carry out ongoing evaluation needed around current models of support/service against best practice and the Council's strategic direction and recommend change, as necessary.
- Effectively overseeing and managing relevant budgets within available resources and adhere to financial governance arrangements.
- Managing staff, including all aspects of supervision, development and appraisal.

**Here's what we can provide you with:-**

- The opportunity to be at the forefront of implementing and embedding change and excellent practice.
- The opportunity to work within a dynamic service area that has high ambition.
- The chance to help shape future delivery of provision for people who need our support.
- Regular supervision.
- Access to a range of training opportunities.
- Regular employee reviews to discuss progress, development and future objectives.

**What else you need to know…..Monmouthshire Values are:**

Openness: We aspire to be open and honest to develop trusting relationships.

| | |
|---|---|
| Fairness: | We aspire to provide fair choice, opportunities and experiences and become an organisation built on mutual respect. |
| Flexibility: | We aspire to be flexible in our thinking and action to become an effective and efficient organisation. |
| Teamwork: | We aspire to work together to share our successes and failures by building on our strengths and supporting one another to achieve our goals. |

And this role, will work with Monmouthshire to achieve these.

**In addition:**

All employees are responsible for ensuring that they act at all times in a way that is consistent with Monmouthshire's Equal Opportunities Policy in their own area of responsibility and in their general conduct.

The authority operates a Smoke Free Workplace Policy which all employees are required to abide to.

## Person Specification

**How will we know if you are the right person for the role? As the successful candidate you will have demonstrated:-**

- You will be someone who has excellent communication skills shown through their relationships with staff, public and partners.

- I need you to be flexible and able to prioritise your own work load taking into account the demands that each day brings.

- You will need to be able to cope with crises and be able to show resilience and negotiate for successful resolution.

- I need you to through personal example, promote the diversity of Monmouthshire's people and communities to ensure equal opportunities in all aspects of employment and service provision

- To ensure that the council's responsibilities under the health and safety at work act and subsequent regulations are met in respect of the adult service areas. To carry out any other duties that may be reasonably required by the chief officer.

- You will be able to act as an "independent" investigating officer in relation to Social Services' complaints and personnel procedures, and contribute to Safeguarding processes as appropriate.

---

- I need you to be active in keeping up to date on developments within the social care field to inform and develop work of practice change.

- I need you to hold a current driving licence and have the use of your own car.

- To carry out any other duties that may be reasonably required by the chief officer.

- To have excellent people management skills
- Proven experience and skill in commissioning work with experience in health and Social care delivery.
- A Strategic focus, with the ability to operationalise policy and strategic direction and analyse what is needed to improve outcomes for people.
- Knowledge and understanding and experience of legislation relevant to both adult and children's services.
- A thorough understanding and experience of project development and delivery.
- Managing complex budgets and finite resources
- Able to analyse data to improve service delivery and ensure quality of practice.
- Commitment to ensure the person is at the centre of all service delivery

- Ability to manage the pace and complexity of change in order to deliver excellence in practice that evidences outcomes for people who need our support.
- Willingness to try new ideas
- Ability to be creative and innovative
- Ability to turn ideas in practice.
- Effective communication skills across a wide audience eg staff, Directors, senior managers, providers and community
- Experience and familiarity in use of IT
- Experience of engagement processes, presentations and writing reports
- Organisational skills for self and team
- Relevant qualification
- Current driving licence and use of car
- Able to demonstrate a clear understanding of equal opportunity principles and commitment to anti discriminatory practice.

**Should you require any further information regarding this post, please contact: Ceri York Service Manager for Commissioning and Disability Services.Tel: 07775 648623**

**Closing Date: 12 Noon on 21st October 2016**

**HYSBYSEB SWYDD**

**TEITL SWYDD:** **Comisiynydd Arweiniol Gwasanaeth Anabledd**

DROS DRO hyd ddiwedd mis Mawrth 2017 i ddechrau

**CYFEIRNOD SWYDD:**

**GRADD:** SCP 45 (39,660) – 49 (£43,387)

**ORIAU:** 37 awr yr wythnos

**LLEOLIAD:** Brynbuga neu Magwyr a all newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth symud. Ni fyddir yn talu treuliau adleoli neu ymyriad os yw hyn yn digwydd.

**ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:**
Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

**DIBEN Y SWYDD:**
Rydym angen comisiynydd arweiniol deinamig i helpu i greu'r cyfleoedd iawn ar gyfer y bobl a gefnogwn.
Mae angen i ni gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i bobl fyw bywydau da a chael y gefnogaeth sy'n eu galluogi i fyw eu bywydau eu hunain. Bydd y swydd hon yn allweddol wrth ddatblygu'r opsiynau yma.
Bydd y swydd yn rhoi cwmpas cynhwysfawr ac yn datblygu'r farchnad ar hyd egwyddorion gwaith 'troi'r byd a'i ben i waered' sy'n cael ei ymestyn i'r farchnad cymorth cartref. Bydd y rôl yn gweithio gyda'r holl wasanaeth i herio a chefnogi symud i fan lle gallwn fod yn fwy hyderus ein bod yn trafod 'yr hyn sy'n cyfri' ar draws y bwrdd.

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â: Ceri York, Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Comisiynu ac Anabledd. Ffôn: 07775 648623.**

**Dyddiad Cau: 12 canol-dydd ar 21 Hydref 2016**

**Dylid nodi na allwn dderbyn CVs**

**Gellir llenwi ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho drwy:**
**http://www.monmouthshire.gov.uk/how-to-apply-for-council-jobs**

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Ar ôl eu llenwi, dylid dychwelyd ffurflenni cais papur i'r cyfeiriad dilynol:-
Gwasanaethau Pobl Cyngor Sir Fynwy, Blwch SP 106
CILY-COED, NP26 9AN

Caiff apwyntiad i'r swydd ei eithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a chynhelir Gwiriad Datgelu Estynedig.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.

Mae'r holl swyddi yn agored ar gyfer swydd-rannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Gweithle Di-fwg.

**PROFFIL SWYDD**

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD:** | **Comisiynydd Arweiniol Anabledd Dysgu**<br>DROS DRO am chwe mis i ddechrau |
| **CYFEIRNOD SWYDD:** | |
| **GRADD:** | SCP 45 (£39,660) – 49 (£43,387) |
| **ORIAU:** | 37 awr yr wythnos |
| **LLEOLIAD:** | Brynbuga neu Magwyr a all newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth symud. Ni fyddir yn talu treuliau adleoli neu ymyriad os yw hyn yn digwydd. |
| **CYFRIFOL I:** | Ceri York, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Comisiynu ac Anabledd |

**ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:**
Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ... **Pwy ydym ni?**

**Ein Diben:**
Rydym yn grŵp ymroddedig iawn o staff ar draws gwasanaethau Plant ac Oedolion sy'n gweithio i wneud gwahaniaeth a chefnogi pobl, plant a theuluoedd i fyw eu bywydau eu hunain. Rydym yn ymroi i greu'r amodau cywir ar gyfer rhagoriaeth mewn ymarfer a darparu cefnogaeth i gyflawni ein nod gyda'r bobl a gefnogwn.
Bu symud o ddull seiliedig ar ddiffyg i ddull llwyr seiliedig ar gryfder yn her ac mae'n dal i fod yn her, ac rydym yn gwneud cynnydd da tuag at hyn.
Roeddem yn flaenorol yn darparu gofal cymdeithasol drwy ddull oedd i raddau helaeth yn seiliedig ar anghenion oedd yn aml yn parhau i gael ei arwain gan y gwasanaeth. Mae cyfeiriad teitho comisiynu cefnogaeth ar gyfer pobl gydag Anableddau Dysgu yn ein gweld yn datblygu amrywiaeth o gefnogaeth sy'n cynorthwyo pobl i fyw eu bywydau eu hunain a datbygu ymagwedd gynaliadwy at gyflenwi cefnogaeth a gwasanaethau.
Rydym wedi teithio ymhell hyd yma ond mae angen yn awr i ni symud hyn i fod yn rhagorol ar draws y bwrdd.
Gyda gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn Ebrill 2016 credwn ein bod mewn lle da i fynd i'r afael ag uchelgais y gofynion deddfwriaethol newydd.

**Diben y Swydd:**
Mae creu'r gefnogaeth gywir a gwasanaethau lle mae ei hangen yn defnyddio dull gweithredu a gyd-gynhyrchir seiliedig ar gryfder yn garreg sylfaen allweddol y dylai'r swydd hon ymarfer arni.
Rydym yn canolbwyntio ar ddull gweithredu seiliedig ar le sy'n galluogi pobl i aros wedi'u cysylltu gyda'u cymunedau a rhwydweithiau ac yn cael mynediad i amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau sydd wirioneddol yn helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain a'u canlyniadau personol penodol.

Bydd y rôl yn cwmpasu'n gynhwysfawr ac yn datblygu'r farchnad ar hyd egwyddorion gwaith 'troi'r byd a'i ben i wared' sy'n cael ei ymestyn i'r farchnad cymorth cartref.
Bydd datblygu cysylltiadau gyda'r sector ac unigolion sydd angen cefnogaeth gennym yn allweddol i lwyddiant.
Bydd y swydd yn gweithio gyda'r holl wasanaeth i herio cefnogaeth a symud ymarfer i fan lle gallwn fod yn fwy hyderus ein bod yn trafod 'yr hyn sy'n cyfri' ar draws y bwrdd.

**Ein diben yw:** 'Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain.'

Yr egwyddorion gweithredu allweddol sy'n helpu i lywio sut yr ydym yn datblygu a gweithredu ein darpariaeth yw:

Byddwn yn gweithio mewn **partneriaeth** i hwyluso datrysiadau, gan adeiladu perthynas ystyrlon gyda theulu'r unigolyn a phartneriaid.

- Byddwn yn gwybod/yn glir am y bobl a fyddwn yn eu cefnogi mewn modd **amserol.**
- Bydd gennym gynllun o sut y byddwn yn cefnogi pobl i ddatblygu cynllun 'bywyd cyfan' a chael dull i olrhain cynnydd a **chyfathrebu** yn effeithlon (yn cynnwys comisiynu).
- Byddwn yn cymryd dull gyda **ffocws ar ganlyniadau** i gynllunio yn y dyfodol (tymor hir a thymor byr) gyda theuluoedd ac unigolion i gyflawni eu huchelgeisiau a'u nodau eu hunain).
- Byddwn yn cynnwys y **bobl gywir** ar yr adeg gywir i helpu pobl mewn argyfwng a byddwn yn cymryd cyfrifoldeb am gyflymder addas a pharhad ein hymyriad parhaus.
- Byddwn yn cael sgyrsiau **onest a thryloyw** gyda phawb.
- Byddwn yn gweithio gyda ac yn **parchu** cydweithwyr eraill ac yn herio systemau i sicrhau arfer gorau a darparu gwasanaeth.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth i adlewyrchu, **dysgu** a datblygu ar ein hymarfer a'n penderfyniad.
- Bydd popeth a gofnodwn yn **bwrpasol** a chymesur.

**Diben y Swydd:**
Yn ei hanfod, bydd y swydd hon yn ymwneud â chreu mwy o opsiynau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu i fyw bywydau da.
Fel y nodir yn y strategaeth gomisiynu, rydym angen comisiynydd arweiniol sydd â chonsyrn am:

Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain
Cryfhau cymunedau
Pobl yn teimlo'n ddiogel
Gwneud pethau'n wahanol
Hyrwyddo, atal ac ymyriad cynnar

Mae trawsnewid yn ymarferol wedi arwain at wahanol ganlyniadau ar gyfer unigolion ac rydym yn awr angen gwahanol 'gynnig' i bobl, bydd y swydd allweddol yma yn cefnogi'r datblygiad.

**Disgwyliad a Chanlyniadau'r Rôl:**

Rydym yn edrych am gomisiynydd arweiniol sydd â hanes o lwyddiant mewn sicrhau newid. Mae angen i chi fod yn feddyliwr creadigol ac yn gyfathrebydd effeithlon, mae'n bwysig y caiff eich gwerthoedd eu gyrru gan sicrhau y gall pobl fyw eu bywydau eu hunain.

Bydd gennych angerdd am ddatblygu ymarfer a rheoli newid a byddwch yn gweld hyn fel y prif ffocws a rhan allweddol o gyflenwi'r 'hyn sy'n cyfri'. Mae angen i chi fod yn unigolyn brwdfrydig ac egnïol a all barhau i symud ymlaen â thrawsnewid comisiynu ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu. Credwn fod y dull gweithredu yr ydym wedi'i ddatblygu ar ei ffordd i wneud gwahaniaeth mawr i'r bobl, ond mae eisiau mynd ymhellach.

Mae creu iaith gynhwysfawr am ymarfer ardderchog sy'n wirioneddol gefnogi gosod canlyniadau personol a medru mesur llwyddiant yn allweddol i reoli'r model darpariaeth gwasanaeth rwyf ei angen.

Mae hefyd angen i chi fod yn dda am rwydweithio a chydweithio. Gallwch ddylanwadu ar y cyfeiriad teithio a gallu ysbrydoli pobl gyda'ch gweledigaeth o ymarfer ar gyfer y dyfodol..

Fel y nodir yn y strategaeth gomisiynu a atodir, rydym angen comisiynydd arweiniol sydd â chonsyrn am:

Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain
Cryfhau cymunedau
Pobl yn teimlo'n ddiogel
Gwneud pethau'n wahanol
Hyrwyddo, atal ac ymyriad cynnar

Rydym angen arweinydd Comisiynu a all sicrhau trawsnewid pellach ar draws maes gwasanaeth Anabledd Dysgu yn adeiladu ar y gwaith hyd yma a mynd â nhw i fwcl.

Mae gan y swydd berthnasedd uniongyrchol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ei elfen, mae comisiynu yn ymwneud â hyrwyddo gwell dewis ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i alluogi hyn i ddigwydd mewn cymunedau mwy cydlynol ac edrych ar ffyrdd y gallwn helpu unigolion gydag anableddau dysgu i ddod yn fwy annibynnol.

Mae'r swydd hefyd yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan ei fod yn tanlinellu cefnogi pobl ar sail sy'n adlewyrchu'r angen am gynaliadwyedd hirdymor.

Byddwch yn creu'r cyd-destun lle gallwn dyfu adolygiadau cefnogi/gwasanaeth sydd wedi eu seilio ar yr hyn sy'n cyfri ac sy'n ymwneud â sicrhau canlyniadau gwell. Caiff y rhain eu mesur a byddwch yn gyfrifol am brosesau penodol tendro/dyfarnu contract.

**Eich cyfrifoldebau yw:-**

- Datblygu amrywiaeth eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n galluogi marchnad gynaliadwy a hyblyg gyda'r person yn ganolog i'r hyn a ddarperir, a bod gennym dystiolaeth o bobl gydag Anabledd Dysgu yn cyd-gynhyrchu'r hyn sydd ar gael.
- Sicrhau eich bod wedi gwrando ar yr holl randdeiliaid, gan helpu i ddileu'r rhwystrau sy'n rhwystro datblygu cefnogaeth a gwasanaethau sy'n canoli ar y person.
- Datblygu a gweithredu manylebion gwasanaeth a gytunwyd, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn addas i'r diben ac yn ei le, yn sail i'r gweithgareddau comisiynu ac yn seiliedig ar ganlyniadau.

- Bod yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau a gytunwyd i sicrhau y cânt eu cyflwyno o fewn fframwaith cyfreithiol priodol ac sydd â sail deg, gyfartal a thryloyw sy'n amlwg yn sicrhau canlyniadau
- Rhoi sylw neilltuol i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr
- Dadansoddi data i hysbysu cynllunio ar y cyd/partneriaeth a datblygiadau gwasanaeth
- Cynnal y gwerthusiad parhaus sydd ei angen am fodelau cyfredol o gefnogaeth/gwasanaeth yn erbyn arfer gorau a chyfeiriad strategol y Cyngor ac argymell newid, fel sydd angen
- Goruchwylio a rheoli cyllidebau perthnasol yn effeithlon o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chydymffurfio gyda threfniadau llywodraethiant ariannol
- Rheoli staff, yn cynnwys pob agwedd o oruchwyliaeth, datblygiad a gwerthusiad.

**Dyma'r hyn y gallwn ei roi i chi:**

- Cyfle i arwain wrth wreiddio a sefydlu ymarfer ardderchog.
- Cyfle i weithio o fewn maes gwasanaeth deinamig ac uchelgeisiol.
- Cyfle i helpu darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer pobl sydd angen ein cefnogaeth.
- Goruchwyliaeth reolaidd.
- Mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi.
- Adolygiadau rheolaidd gan gyflogeion i drafod cynnydd, datblygu ac amcanion y dyfodol.

**Beth arall sydd angen i chi wybod ... Gwerthoedd Sir Fynwy yw ...**

| | |
|---|---|
| Bod yn agored: | Anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth. |
| Bod yn deg: | Anelwn ddarparu dewis, cyfleoedd a phrofiadau a teg a dod yn sefydliad sydd wedi adeiladu ar barch pobl at ei gilydd. |
| Bod yn hyblyg: | Anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol. |
| Gwaith tîm: | Anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau. |

A bydd y rôl yma'n gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni hyn.**Yn ogystal:**

Mae pawb a gyflogir yn gyfrifol am sicrhau eu bod bob amser yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu Polisi Gweithle Di-fwg y bydd angen i'r holl gyflogeion gydymffurfio ag ef.

# Manyleb Person

**Sut fyddwn ni'n gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos:**

- Byddwch yn rhywun gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog a ddangosir drwy eu perthynas gyda staff, y cyhoedd a phartneriaid.
- Mae angen i chi fod yn hyblyg ac yn gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun gan roi ystyriaeth i'r galwadau a ddaw bob dydd.
- Bydd angen i chi fedru ymdopi gydag argyfyngau a dangos cryfder a negodi am ddatrysiad llwyddiannus.
- Bydd angen i chi, drwy esiampl bersonol, hyrwyddo amrywiaeth pobl a chymunedau Sir Fynwy i sicrhau cyfle cyfartal ym mhob agwedd o gyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth
- Sicrhau y caiff cyfrifoldebau'r Cyngor dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch a rheoliadau dilynol eu cyflawni yng nghyswllt y meysydd gwasanaeth oedolion.
- Gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill y gall y prif swyddog ofyn amdanynt yn rhesymol.
- Byddwch yn gallu gweithredu fel swyddog ymchwilio "annibynnol" yng nghyswllt cwynion a gweithdrefnau personol Gwasanaethau Cymunedol, a chyfrannu at brosesau Diogelu fel sy'n addas.
- Mae angen i chi gadw mewn cysylltiad gyda'r datblygiadau diweddaraf o fewn y maes gofal cymdeithasol i hysbysu a datblygu gwaith o arfer newid.
- Sgiliau ardderchog mewn rheoli.
- Profiad y gellir ei ddangos mewn comisiynu gwaith gyda phrofiad mewn cyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Ffocws strategol, gyda'r gallu i weithredu polisi a chyfeiriad strategol fel y gall yr holl weithlu gyflenwi gyda'i gilydd.
- Dealltwriaeth drwyadl a phrofiad o ddatblygu a chyflenwi prosiect.
- Rheoli cyllidebau cymhleth ac adnoddau cyfyngedig.
- Gallu i ddadansoddi data i wella darpariaeth gwasanaeth a sicrhau ansawdd ymarfer.
- Ymrwymiad i sicrhau fod y person yn ganolog i bob darpariaeth gwasanaeth.
- Gallu i drin cyflymder a chymhlethdod newid er mwyn sicrhau rhagoriaeth mewn ymarfer sy'n dangos canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen ein cefnogaeth.
- Parodrwydd i roi cynnig ar syniadau newydd.
- Gallu i fod yn greadigol ac arloesi.
- Gallu i roi syniadau ar waith.
- Sgiliau cyfathrebu effeithlon ar draws cynulleidfa eang e.e. y bobl a gefnogwn, teuluoedd, staff, cyfarwyddwyr, uwch reolwyr, darparwyr a'r gymuned.
- Profiad a bod yn gyfarwydd a defnyddio technoleg gwybodaeth.
- Profiad o brosesau ymgysylltu, cyflwyniadau ac ysgrifennu adroddiadau.
- Sgiliau trefnu ar gyfer eich hunan a'r tîm.
- Cymhwyster perthnasol.
- Trwydded yrru gyfredol a defnydd car.
- Gallu i ddangos dealltwriaeth glir o egwyddorion cyfle cyfartal ac ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â Ceri York, Rheolwr Gwasanaethau Comisiynu ac Anabledd: 07775 648623**

**Dyddiad Cau: 12 canol-dydd ar 21/10/2016**